

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
4 TACHWEDD, 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau, 4 Tachwedd 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Hilary McGuill (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Paul Cunningham, Jean Davies,
Carol Ellis, Gladys Healey, Cindy Hinds, Mike Lowe, Dave Mackie,
Michelle Perfect a David Wisinger

YMDDIHEURIADAU: Uwch Reolwr (Gwasanaethau Integredig ac Arweinydd
Oedolion)

HEFYD YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Carolyn Thomas

CYFRANWYR:

Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd Partneriaethau ac Aelod
Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol); y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog
(Gwasanaethau Cymdeithasol);
Arweinydd Lles a Phartneriaethau, Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu ac
Uwch Reolwr - Plant a'r Gweithlu

CYNYRCHIOLWYR BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Jo Whitehead - Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mark Polin – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Rob Smith - Cyfarwyddwr Ardal y Dwyrain

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol
a'r Amgylchedd, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Gymuned ac Addysg a'r
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

33. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

34. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2021, a
gynigiwyd gan y Cynghorydd Dave Wisinger a'u heilio gan y Cynghorydd Carol
Ellis.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

35. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol cyfredol. Nododd fod gan y cyfarfod nesaf ar 9 Rhagfyr raglen drom a rhoddodd amlinelliad o'r eitemau oedd i'w cyflwyno. Yna cyfeiriodd at gyfarfod 20 Ionawr a rhoddodd ddiweddariad o'r eitemau ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Cyfarfod mis Ionawr oedd yr olaf ym mlwyddyn y cyngor oherwydd yr Etholiadau lleol. Os hoffai unrhyw aelod ychwanegu unrhyw eitemau ychwanegol at y Flaenraglen Waith gallent wneud hynny drwy gysylltu â hi.

Yna cyfeiriodd yr Hwylusydd at yr adroddiad Orlhain Camau Gweithredu, gan gadarnhau bod y wybodaeth am Apwyntiadau Meddygon Teulu wyneb yn wyneb a'r diweddariad ar Covid Hir wedi'u dosbarthu. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan LIC ar y Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn Sir y Fflint, ond cadarnhaodd yr eir i'r afael â hyn. Yna cyfeiriodd at yr awgrym gan y Cynghorydd Marion Bateman bod y pwyllgor yn cerdded o amgylch canol tref neu Barc Manwerthu i gael dealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu pobl anabl bob dydd. Nid oedd hyn yn cael sylw ar hyn o bryd ond roedd ar y radar a byddai'n cael ei gynnwys yn rhaglen y flwyddyn ddinesig newydd. Roedd yr holl gamau gweithredu eraill wedi'u cwblhau.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

36. BWRDD IECHYD BETSI CADWALADR

Croesawodd y Cadeirydd Mark Polin, Jo Whitehead a Rob Smith o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i'r cyfarfod.

Diolchodd Mark Polin (Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) i'r pwyllgor am y cyfle i ddod i'r cyfarfod i ddarparu ymatebion i'r cwestiynau a godwyd. Roedd hwn hefyd yn gyfle i dynnu sylw at y berthynas waith dda oedd yn bodoli rhwng y Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol, yn enwedig yn ystod Pandemig Covid. Eglurodd nad oedd modd datrys rhai o'r pwysau yn y byrdymor ond roedd yn gobeithio y byddai'r cyfarfod hwn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i geisio lliniaru'r rhain.

Diolchodd Jo Whitehead (Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) i'r pwyllgor am y cyfle i siarad, a thalodd deyrnged i'r Prif Swyddog, yr

Uwch Dîm Arwain a Phartneriaid sy'n darparu gwasanaethau yn Sir y Fflint. Roedd y gwaith hwn wedi galluogi modelau gwasanaeth gofal diddorol a blaengar a oedd yn gwneud gwahaniaeth i'r boblogaeth. A hithau ond wedi bod yn ei swydd am 10 mis, roedd Jo Whitehead yn falch, er gwaethaf yr heriau, fod ffocws a rennir ar anghenion pobl Sir y Fflint. Roedd BIPBC yn gofalu am boblogaeth o tua 700,000 a disgwylir i'r ystod oedran dros 85 gynyddu 154%. Roedd cynlluniau hanfodol fel Marleyfield mor bwysig.

Yna rhoddodd Jo Whitehead wybodaeth am nifer yr achosion Covid a diweddariad ar y Rhaglenni Brechu a'r Pigiad Atgyfnerthu. Roedd lefel y cleifion mewn ysbytai ledled Cymru mor uchel â mis Chwefror ond roedd paratodau ar y gweill i weithredu'r Cynllun Ymchwydd ar gyfer UThD. Roedd goblygiadau Covid Hir, effeithiau ar blant a gofalwyr hefyd yn cael eu hystyried. Yna rhoddodd drosolwg o'u blaenoriaethau sefydliadol a'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol. Darparwyd gwybodaeth hefyd am y tri phrif safle aciwt a oedd yn cynnwys Adrannau Achosion Brys, Mamolaeth ac ystod o wasanaethau craidd. Roedd arian LIC wedi galluogi gwelliannau i safleoedd Maelor a Bangor, gyda thrafodaethau ar y gweill ynghylch creu nifer o ganolfannau triniaeth rhanbarthol. Yna cyfeiriodd Jo Whitehead at y mentrau rhestrau aros a rhoddodd enghraifft i'r cleifion hynny a oedd yn aros am gataractau neu lawdriniaeth llygaid a oedd bellach yn teithio i Gilgwri, er mwyn lleihau amseroedd aros.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ar y Timau Ardal, cadarnhawyd bod y Model Gweithredu yn cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno'r ddarpariaeth yn lleol ac yn ddiogel. Roedd y strwythurau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ac roedd Jo Whitehead am barhau i ganolbwyntio ar ardaloedd y Dwyrain, y Gorllewin a'r Canolbarth gan ddatblygu systemau rheoli gofal iechyd integredig.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'r uned mân anafiadau a addawyd yn cael ei gosod yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy. Cadarnhawyd bod opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer Glannau Dyfrdwy i liniaru'r achosion gofal brys yn y Maelor. Nid oedd amserlen ar gyfer y gwaith hwn, ond roedd yn un o'r opsiynau y gobeithiwyd ei barhau.

Cwestiynau gan y Pwyllgor

1. Rhowch ddiweddariad ar yr amseroedd aros hir mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, yn enwedig Ysbyty Maelor.

Cyfeiriodd Jo Whitehead at y pwysau eithafol a wynebai'r System Gofal Iechyd a oedd yn peri problemau i gleifion, staff a chydweithwyr y gwasanaeth ambiwlans, gydag amrywiaeth o faterion yn effeithio ar yr amseroedd aros hir. Roedd mwy o bobl yn aros i gael eu gweld yn yr Adran Achosion Brys, a llai o welyau ar gael oherwydd y gofod rhwng y gwelyau i ymdopi â her Covid. Roedd prinder cyfleusterau en-suite a gofod ward ystafelloedd sengl ym mhrif adeilad yr ysbyty, ac roedd hyn wedi'i gynnwys yn y cais am gyfalaf gan Lywodraeth Cymru (LIC). Roedd hefyd nifer o gleifion a oedd, er eu bod yn ffit i gael eu rhyddhau am resymau meddygol, yn dal i fod yn yr ysbyty oherwydd diffyg pecynnau gofal

cartref a rhesymau eraill. Roedd y gwaith partneriaeth gyda'r Cyngor yn effeithiol ac yn gwneud gwahaniaeth. Rhoddodd enghreifftiau o sut roedd y rhaglen Rhyddhau i Asesu Cartref yn Gyntaf, ynghyd â chymorth staff gofal a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd, yn gallu cynorthwyo'r cleifion hyn gyda phhecynnau gofal cartref a chymorth i gartrefi gofal. Roedd pwysau wedi'i roi ar Lywodraeth Cymru ynglŷn â Chanllawiau Iechyd y Cyhoedd ar reoli Cartrefi Gofal Coch, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn briodol. Deallodd y byddai LIC yn ymateb yn gadarnhaol i'r canllawiau newidiol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ar amseroedd aros hir yn yr Adran Achosion Brys, eglurodd Jo Whitehead fod systemau ar waith i symud staff o'r wardiau i'r Adran Achosion Brys os yn briodol. Byddai staff clinigol o Ward y Plant er enghraifft yn symud i gefnogi Adran Achosion Brys pe bai niferoedd mawr o blant yn aros i gael eu gweld. Roedd capasiti i ddefnyddio darpariaeth goramser ar gyfer Meddygon a Staff lle bo angen. Yna cyfeiriodd at y rhaglen recriwtio ar gyfer Meddygon, Ymgynghorwyr Nyrsio a Thechnegwyr Clinigol a oedd ar y gweill. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, gyda'r bwriad o ymestyn eu cefnogaeth i gleifion oedd wedi cael codwm.

Ychwanegodd Mark Polin nad oedd modd mynd i'r afael â gofal heb ei drefnu heb ystyried gofal wedi'i gynllunio gan eu bod yn rhyng-gysylltiedig. Darparodd wybodaeth am y nifer sylweddol o ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer canolfannau diagnostig a thriniaeth rhanbarthol a gafwyd, a dywedodd fod LIC am symud hyn ymlaen. Pe bai'r rhain yn symud ymlaen, byddai'n cymryd cryn dipyn o bwysau oddi ar y safleoedd aciwt. Byddai hyn yn cael ei ariannu drwy arian a dderbyniwyd gan LIC yn gynharach yn y flwyddyn gyntaf, a disgwyliod y byddai LIC yn parhau i gefnogi hyn wrth symud ymlaen. Yna cyfeiriodd Mark Polin at yr achos busnes Orthopedig a oedd wedi bod yn mynd rhagddo ers dros 2 flynedd. Cadarnhaodd fod hwn bellach yn symud ymlaen o fewn y cynnig canolfannau diagnostig a thriniaeth rhanbarthol. Roedd y rhaglen gwella gofal heb ei drefnu yn newydd ac yn cynnwys ymgysylltu ag arweinwyr LIC ac arweinwyr cenedlaethol. Roedd y Bwrdd yn debygol o gytuno'n fuan i fuddsoddi mewn nifer sylweddol o staff ychwanegol ar gyfer yr adrannau Achosion Brys ac yna byddai'n ceisio mynd i'r afael â'r her o ran recriwtio.

2. A oes gan BIPBC unrhyw gynlluniau i ddarparu meddygfa, deintyddfa neu'n well fyth Ganolfan Iechyd ar gyfer poblogaeth gynyddol Saltney a Saltney Ferry? Dim ond meddygfa meddyg teulu rhan amser mewn tŷ teras sydd yn Saltney ac mae mwyafrif y trigolion yn gorfod teithio dros y ffin i Loegr i gael y gwasanaethau hyn. Dyma un o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnir gan drigolion, yn enwedig gan fod mwy o dai yn cael eu hadeiladu yn yr ardal.

Dywedodd Jo Whitehead fod y Bwrdd Iechyd yn darparu ystod o wasanaethau ynghyd â meddygfa fach yn Saltney. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r practis i sefydlu pa ddarpariaeth gwasanaeth fyddai ei angen ar gyfer anghenion gofal sylfaenol y boblogaeth yn y dyfodol. Gan fod hwn yn bractis annibynnol, byddai angen iddynt sicrhau cymorth ar gyfer unrhyw newidiadau, gan fynd drwy'r broses ymgysylltu ffurfiol â'r Bwrdd Iechyd. Mater i'r Practis, gyda chefnogaeth y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod, oedd ehangu neu newid

adeilad y practis. Roedd y Bwrdd Iechyd yn awyddus i weithio gyda'r practis yn Saltney.

3. Dair wythnos yn ôl rhuthrwyd claf i'r ysbyty gyda haint ar y bledren, a arweiniodd at y claf yn ddifrifol wael gyda Sepsis. Roedd y parafeddygon yn wych a does gen i ddim byd ond canmoliaeth iddynt. Fodd bynnag, gadawodd y claf ei gartref yn yr ambiwlans am 8.30am ac yna bu'n rhaid iddo aros yn yr ambiwlans am tua 8 awr. Yn ystod yr oriau hyn bu'n rhaid symud y claf o un ambiwlans i'r llall tra'n aros y tu allan i'r ysbyty. Pan fydd cleifion mor ddifrifol wael gyda Sepsis neu unrhyw salwch arall y gallent farw o fewn munudau neu oriau, beth ar y ddaear sy'n digwydd? Hefyd, pan fydd cleifion yn marw mewn sefyllfaoedd fel yr uchod, faint o bobl sy'n erlyn y GIG?

Ni allai Jo Whitehead drafod achosion neu amgylchiadau unigol. Cyfeiriodd at ei sylwadau cynharach ar y pwysau a wynebir gan y system gofal iechyd gyfan, yr Adran Achosion Brys, a'r gwasanaethau Ambiwylans. Eglurodd pan ofynnwyd i Ambiwylansys aros y tu allan i'r Adran Achosion Brys, bod y clinigwyr yn cynnal asesiadau o'r cleifion, yn debyg i'r rhai a gynhelir yn yr adran Achosion Brys. Dywedodd pe bai cydweithwyr yn anfon e-bost ati ynghylch yr achos hwn, y byddai'n hapus i drefnu i ymchwiliad gael ei gynnal.

Gofynnodd y Cadeirydd am sicrwydd pe bai claf y tu allan mewn ambiwlans gyda chlinigwr yn cynnal asesiadau, y gellid eu newid pe bai angen. Cadarnhaodd Jo Whitehead fod hyn yn digwydd gyda rhai cleifion sy'n ddigon da i fynd adref.

4. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am becyn a ariannwyd ar y cyd a cholled o £133K i'r Cyngor pan wrthododd BIPBC â thalu eu cyfran? A allwch chi esbonio'r rhesymau a'r broses ar gyfer cytuno ar becyn a ariennir ar y cyd? Yn ogystal, sut mae osgoi anghydraddoldeb pan fo anghydfod ynghylch ariannu pecyn?

Cyfeiriodd Jo Whitehead at y prosesau cryfach a oedd yn bodoli bellach rhwng y ddau sefydliad ynghylch taliadau heb eu cwblhau. Adroddodd ar y cyfarfodydd bob pythefnos rhwng y ddau dîm cyllid i fonitro cynnydd taliadau. Roedd nifer o anfonebau yn destun ymholiad, ond roedd y gwerth wedi gostwng ers rhoi'r broses hon ar waith. Pan fyddai ymholiadau wedi codi, os na ddeuir i gytundeb, yna byddai'r rhain yn cael eu huwchgwyfeirio rhwng y llinellau cyllid, hi ei hun, a'r Prif Swyddog.

Dywedodd y Cyngorydd Carol Ellis fod aros am 16 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn peri cryn bryder ac yn effeithio nid yn unig ar y claf yn yr ambiwlans ond hefyd ar y rhai oedd yn aros gartref. Roedd trigolion wedi adrodd ar ôl aros yn hir i fynd i'r adran damweiniau ac achosion brys eu bod wedyn yn wynebu'r broblem o ddiffyg gobenyddion neu ddillad gwely. Dywedodd na ddarparwyd unrhyw wybodaeth am ofal canser, yn enwedig pobl a oedd yn

aros am brofion diagnostig, neu iechyd meddwl, a oedd ill dau ar lefelau argyfwng. Roedd llawer o'r problemau hyn yn bodoli cyn Pandemig Covid. Yna gofynnodd pam nad oedd yr ysbytai Enfys yn cael eu defnyddio i leddfu'r pwysau, yn enwedig ar y rhai oedd yn aros i gael eu rhyddhau. Roedd y Cynghorydd Ellis yn cydymdeimlo'n fawr iawn â'r staff ar y rheng flaen ond roedd yn bryderus am amseroedd aros, yn enwedig gydag effaith pwysau'r gaeaf. Yna dywedodd ei bod bellach yn cymryd 5 wythnos i gael prawf gwaed gan y Meddyg Teulu, a themlai fod y systemau iechyd yng Ngogledd Cymru mewn argyfwng. Meddyliodd pam na chafwyd ymyrraeth gan LIC.

Mewn ymateb, eglurodd Mark Polin fod yr ymatebion yn cael eu darparu i gwestiynau a godwyd. Pe bai cwestiynau ar ofal canser ac iechyd meddwl wedi'u codi, yna byddai ymatebion wedi'u darparu. Nid dim ond BIPBC oedd yn wynebu'r galw hwn, ond pawb ar draws y DU. Cytunodd fod y pwysau hwn yn bodoli cyn y pandemig. Amlinellodd y trafodaethau a gynhaliwyd gyda LIC am gymorth ariannol ychwanegol gan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi'i ariannu'n ddigonol yn flaenorol. Roedd y pwysau presennol bellach wedi gwaethygu oherwydd pwysau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig. Cadarnhaodd Mark Polin, oherwydd y cyllid hwn, ei bod yn bosibl symud ymlaen a mynd i'r afael â rhai o'r pwysau y cyfeiriwyd atynt yn gynharach. Yna cyfeiriodd at oddeutu 300 o gleifion yn aros ar unrhyw un adeg i gael eu rhyddhau o'r ysbytai aciwt gan ddweud bod hyn yn rhywbeth yr oedd angen canolbwyntio arno ar y cyd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffurflenni Profion Gwaed a oedd yn nodi yn y print lleiaf y gallai pobl fynd ar-lein i drefnu apwyntiad iddynt eu hunain. Nid oedd hyn yn glir gan fod y print mor fach.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gladys Healey at staff locwm a gofynnodd a oedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl. Roedd hi'n teimlo oherwydd bod meddygon yn poeni am ragnodi meddyginiaeth y gallai hyn arwain at hunanladdiad. Mewn ymateb, cadarnhaodd Jo Whitehead fod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu ynghyd â hyfforddiant ymglyfarwyddo lleol ac arweiniad ar gyfer pob adran unigol. Gofynnwyd iddynt hefyd ymgymryd â'r holl hyfforddiant gorfodol yr un fath ag aelodau parhaol o'r timau clinigol.

Darparodd y Prif Weithredwr drosolwg o'r gwaith partneriaeth a oedd yn bodoli rhwng yr Awdurdod a'r Bwrdd Iechyd. Nid oedd wedi bod yn ei swydd yn hir a derbyniodd fod heriau i'r Awdurdod a BIPBC a oedd wedi'u dwysáu gan y pandemig. Yna cyfeiriodd at y berthynas waith rhwng y timau gofal cymdeithasol a BIPBC, a oedd yn cadw pethau'n symud. Roedd dod o hyd i welyau yn bwysau ar y ddau sefydliad a gofynnwyd am lefel ddatblygedig o ddealltwriaeth i BIPBC gan eu bod dan yr un pwysau â'n gwasanaethau cymdeithasol.

Ategodd y Prif Swyddog y sylwadau a wnaed gan y Prif Weithredwr yn dweud bod popeth yn cael ei wneud i gefnogi llif drwy'r system, a dyna oedd yn wir ym mhob awdurdod lleol arall. Ychwanegodd fod 28 o bobl yn ein mewnflwch heddiw, a oedd yn cyfateb i 250 awr o ofal cartref. Dywedodd y

byddai 50 neu 60 o bobl yn y mewnlwch am y rhan fwyaf o aeafau. Cafodd hyn ei fonitro'n agos gyda chydweithwyr ym maes iechyd, a llefydd fel Marleyfield yn system wych i gefnogi'r llif hwnnw.

Cytunodd Rob Smith â'r sylwadau a wnaed a dywedodd fod y gwaith partneriaeth i ymdrin â'r straen yr oedd y timau'n ei wynebu yn allweddol. Roedd hyn yn cynnwys gofalu am bobl yn y gymuned yn hytrach na'u derbyn i'r ysbyty, a sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar waith ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Gofynnodd y Cadeirydd sut oedd y Rhaglen Pigiad Atgyfnerthu yn dod yn ei blaen. Cadarnhaodd Jo Whitehead fod y rhaglen wedi cychwyn a bod LIC wedi gofyn i'r brechiad Pfizer gael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn ddiogel hyd yn oed os oedd y brechlyn AZ wedi'i ddefnyddio o'r blaen. Roedd cymhlethdodau gweithredol ynghylch storio'r brechlynnau hyn, a oedd yn golygu ei bod yn anoddach i bractisau meddygon teulu eu rhoi. Roedd hefyd yn broses hirach o 22 munud, a oedd yn cynnwys aros am 15 munud ar ôl y pigiad. Roedd llai o leoliadau yn weithredol, ond roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda fferyllfeydd y stryd fawr i weld a allen nhw helpu i roi'r pigiadau atgyfnerthu. O ran perfformiad, cadarnhaodd eu bod ar y trywydd iawn ond dywedodd, yn anffodus, bod 10% o'r bobl a wahoddwyd wedi methu â mynd. Gofynnodd a allai'r Aelodau ledu'r gair yn eu hetholaethau ac annog pobl i fynd pan fyddant yn cael eu gwahodd. Esboniodd fod y slotiau wedi'u gorfwcio ac weithiau byddai cyplau'n dod gyda'i gilydd pan mai dim ond un ohonyn nhw oedd wedi cael gwahoddiad. Roeddent yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer y bobl ychwanegol hyn pryd bynnag y bo'n bosibl. Roedd gwaith i annog y genhedlaeth iau i ddod ymlaen hefyd yn parhau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Marion Bateman at adroddiadau oedd yn awgrymu y dylai unigolyn ofyn i'r brechlyn beidio â mynd i mewn i'r llif gwaed. Gofynnodd beth oedd barn BIPBC ar hyn. Atebodd Jo Whitehead nad oedd hi'n glinigwr a gofynnodd a allai ymateb y tu allan i'r cyfarfod

Roedd y Cynghorydd Michelle Perfect eisiau dweud diolch yn fawr iawn am y gwaith roedd BIPBC wedi'i wneud i sicrhau bod y broses o gyflwyno'r brechlyn wedi dechrau mor gyflym. Roedd yn hanfodol bod cymaint o bobl â phosibl yn cael eu hannog i gael eu brechu. Dywedodd ei bod yn bwysig i'r pwyllgor godi pryderon am welliannau y gellid eu gwneud ond ei bod hefyd yn bwysig iawn dweud diolch am y gwaith sydd wedi'i wneud i'n cadw'n ddiogel.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y safle yng Nglannau Dyfrdwy gan ddweud, oherwydd archebion bloc, bod pobl yn aros y tu allan yn y glaw. Gofynnodd a oedd modd defnyddio'r tu mewn i'r ganolfan fel nad oedd pobl yn gorfod aros yn y glaw. Cytunodd Jo Whitehead i gyflwyno'r adborth yma. Dywedodd nad system archebion bloc oedd hyn yn union, ond oherwydd y lonydd a'r slotiau fe aeth yn brysur iawn.

Yna cyfeiriodd y Cadeirydd at yr amseroedd aros ar gyfer diagnosis cychwynnol yn y gwasanaeth niwroddatblygiad i blant a gofynnodd a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud i leihau'r amser aros hwn? Mewn ymateb, dywedodd Jo Whitehead fod amseroedd aros yn hir ond bod proses asesu dros y we wedi'i chyflwyno, gydag asesiadau wyneb yn wyneb bellach yn digwydd ar gyfer plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd. Roedd yn well gan rai pobl aros yn hytrach na chael asesiad dros y we. Adroddodd wedyn ar y gwaith da ar draws Gogledd Cymru ar y cysyniad "Dim Drws Anghywir" a ddaeth â chydweithwyr iechyd, addysg a gofal cymdeithasol ynghyd. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i symleiddio'r broses asesu er mwyn galluogi i fwy o bobl ifanc gael eu gweld yn gyflym gan ddefnyddio'r model Aseswr Dibynadwy. Sefydlwyd y model yn y gwasanaethau oedolion i ymateb i amseroedd aros.

Cyn gadael y cyfarfod rhoddodd Jo Whitehead ddiweddariad ar y mynediad i linell ffôn Gofal Sylfaenol. Cyfeiriodd at y tri phractis a reolir gan BIPBC gan gadarnhau bod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r system ffôn, drwy weithio gyda darparwyr allanol i ychwanegu mwy o linellau neu uwchraddio systemau mewnol. Cadarnhaodd fod dyddiadau cychwyn wedi'u trefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd a dechrau canol Rhagfyr ar gyfer y darnau hynny o waith. Adroddodd hefyd ar y recriwtio llwyddiannus diweddar ar gyfer Meddygon Teulu ac Uwch Ymarferwyr Nyrsio yn Sir y Fflint, gyda'r meddygon teulu newydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Diolchodd y Cadeirydd i Jo am ei phresenoldeb a gwerthfawrogodd y wybodaeth a ddarparwyd ganddi.

Cyfeiriodd Rob Smith at y pwynt cynharach ar fynediad i weld meddygon teulu ac roedd yn deall y pryderon a godwyd. Roedd y model a ddefnyddiwyd ar hyn o bryd yn gymysgedd o frysbenno cartref ac yna'n dod â chleifion i'r practis os teimlwyd bod angen gwneud hynny. Roedd hyn wedi'i gyflymu wrth i ni ddod allan o Covid ac o ganlyniad i'r galw cynyddol.

Yna adroddodd ar y digwyddiadau ymgysylltu gofal sylfaenol a fyddai'n cynnwys aelodau'r pwyllgor. Byddai hyn yn sicrhau bod y pwyllgor yn cael ei hysbysu cymaint â phosibl a byddai'n galluogi i gwestiynau gael eu gofyn. Byddai gwahoddiad dros e-bost yn cael ei anfon cyn hir

Gofynnodd yr Hwylusydd a ellid darparu diweddariad ar wasanaethau iechyd meddwl amenedigol ac ymweld â chleifion wrth symud ymlaen. Nid oedd y wybodaeth honno gan Rob Smith wrth law ond byddai'n ei dosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Yna rhoddodd Rob Smith ddiweddariad ar Raglen Covid Hir LIC, gan gadarnhau bod cyllid wedi'i ryddhau i sefydlu'r gwasanaeth. Byddai tîm amlddisgyblaethol yn gweithio allan o leoliad yn Sir y Fflint, ond nid oedd y

lleoliad wedi'i gadarnhau eto. Y gobaith oedd y byddai'r Gwasanaeth Cofid Hir Arbenigol hwn yn cael ei gynnal yn fuan yn y Flwyddyn Newydd.

Cyfeiriodd Craig Macleod at y pwyntiau a wnaed gan Jo Whitehead ynghylch plant a theluoedd a chroesawodd y ffocws ar wasanaethau niwroddatblygiadol. Roedd am roi sicrwydd i'r pwyllgor am agwedd y Cyngor tuag at hyn. Os oedd angen gofal a chymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu gymorth ychwanegol yn yr Ysgol ar bobl ar y rhestr aros, roedd hwn ar gael i blant ei ddefnyddio. Safbwynt y cyngor oedd rhoi'r cymorth hwnnw ar waith, os oedd angen, cyn diagnosis. Cyfeiriodd at "ymagwedd dim drws anghywir" a oedd yn galluogi cydweithio i gefnogi lles meddwl plant a theluoedd yn well cyn diagnosis. Roedd yn bwysig bod cymorth ar gael, yn enwedig ynghylch lles emosiynol plant a theluoedd wrth ddod allan o Covid. Roedd yn gobeithio y gallai hyn ddod yn ôl i'r pwyllgor er mwyn sicrhau ei fod yn datblygu i wneud gwahaniaeth i blant a theluoedd. Cytunodd Rob Smith â'r sylwadau a wnaed ac adroddodd am y cydweithio â Sir y Fflint a'r Bwrdd Iechyd a oedd yn arwain y ffordd ledled Cymru ac yn gwneud cynnydd cryf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gladys Healey at y Rhaglen Atgyfnerthu ac at sylwadau a wnaed yn ei ward gan rieni pobl ifanc, yn enwedig genethod. Nid oeddent yn mynd i gael y pigiad atgyfnerthu oherwydd y diffyg ymchwil ac roeddent yn pryderu am y sgîl-ffeithiau. Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Healey at Glinig Covid Hir a gofynnodd a oedd hyn ar gyfer trin cleifion a oedd wedi dal Covid neu gleifion a oedd wedi dioddef effeithiau Covid yn ystod y cyfnod clo. Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch y pigiad atgyfnerthu, dywedodd Rob Smith na allai roi ymateb manwl. Fodd bynnag, cadarnhaodd eu bod yn dilyn Canllawiau LIC a'r wyddoniaeth i'r llythyr ar y rhaglen pigiad atgyfnerthu. Yna cyfeiriodd at Glinig Covid Hir a chadarnhaodd y byddai'n trin pobl a oedd wedi dal Covid ac a oedd yn dioddef yr effeithiau hirdymor, yn hytrach na'r effaith anuniongyrchol ar unigolion a fyddai, gobeithio, yn cael eu cefnogi gan wasanaethau gofal sylfaenol ac iechyd meddwl.

Gofynnodd y Cynghorydd Carol Ellis am eglurhad ynghylch y 300 o gleifion a oedd yn barod i'w rhyddhau o dri ysbyty ardal a gofynnodd a oedd modd cael dadansoddiad o faint oedd fesul awdurdod. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog bod 10 cais ysbyty am ofal cartref, 3 gan Ysbyty Countess of Chester a 7 gan BIPBC.

Dywedodd y Cynghorydd Ellis fod Sir y Fflint yn gwneud gwaith da, nad oedd yn cael ei bortreadu yn y cyhoeddiad cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol unigol. Cytunodd y Cadeirydd, gan ddweud nad oedd y wybodaeth yn dangos bod Sir y Fflint yn gwneud gwaith rhagorol.

Diolchodd y Cynghorydd Dave Mackie i'r Cynghorydd Ellis am dynnu sylw at hyn. Roedd wedi ymchwilio i hyn yn arbennig drwy'r Cyngor Iechyd Cymuned gan fod gwahaniaethau yn aml iawn rhwng y ffigurau a gynhyrchwyd gan yr ysbytai a'r ffigurau a gynhyrchwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Awgrymodd bod y pwyllgor yn gofyn am y ffigurau penodol ar gyfer Sir y Fflint pan fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynhyrchu. Mae timau gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod yn gweithio'n hynod o galed i gadw'r nifer mor isel â phosibl. Ychwanegodd oherwydd y codau a ddefnyddiwyd, bod cleifion sy'n dal i dderbyn triniaeth yn yr ysbyty wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n well ganddo ymateb i faterion penodol na chynnwys gormodedd o ffigurau yn y pwyllgor. Dywedodd wrth yr aelodau i gysylltu ag o, Jane Davies neu Susie Lunt os oedd angen gwybodaeth arnynt.

Rhoddodd Rob Smith ddiweddariad ar y rheolau ymweld â chleifion yn Ysbyty Maelor. Cadarnhaodd y caniateir un person fesul claf, ac eithrio amgylchiadau eithriadol megis gofal diwedd oes. Roedd hyn yn ôl disgresiwn Prif Nyrs y Ward ac roedd hefyd yn dibynnu ar yr achosion o Covid. Gofynnwyd i ymwelwyr gysylltu â'r ward cyn ymweld. Gofynnwyd iddynt hefyd gadarnhau nad oedd ganddyn nhw'r feirws.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr am eu presenoldeb ac am yr ymatebion a ddarparwyd i'r cwestiynau a godwyd.

37. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.23am)

.....
Cadeirydd